Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyfarwyddyd

5. Gwybodaeth cydraddoldeb: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Equality and Human Rights Commission

Cynnwys

1. Cyd-destun ar gyfer y canllaw hwn 2
- **1.1 Beth yw awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru? 3**
- **1.2 Deddf Cydraddoldeb 2010 3**
- **1.3 Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol? 3**

2. Dyletswyddau penodol yng Nghymru 4
- **2.1 Pwy sydd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol? 4**
- **2.2 At bwy mae'r canllaw anstatudol wedi ei anelu? 4**

3 Gwybodaeth cydraddoldeb 5
- **3.1 Beth mae'r dyletswyddau penodol yn ei fynnu o ran gwybodaeth cydraddoldeb 5**

4. Pwrpas gwybodaeth cydraddoldeb 6

5. Pryd mae'n rhaid defnyddio gwybodaeth berthnasol? 7

6. Datblygu gwybodaeth 7
- **6.1 Gwybodaeth berthnasol sy'n bod yn barod 7**
- **6.2 Ffynonellau gwybodaeth 8**
- **6.3 Gwybodaeth am y gweithlu 8**

7. Rhoi sylw i fylchau 9

8. Adolygu 9

9. Monitro gwybodaeth sensitif 9

10. Cyhoeddi 10
- **10.1 Ble a beth i'w gyhoeddi 10**
- **10.2 Hygyrchedd 10**

11. Cyfrinachedd 10

Atodiad A: Cyngor i awdurdodau cyhoeddus ar gasglu gwybodaeth cydraddoldeb 11
- **1. Anabledd 11**
- **2. Cyfeiriadedd rhywiol 11**
- **3. Ailbennu rhywedd 12**
- **4. Plant a phobl ifanc 13**
- **5. Crefydd a chred 13**

1. Cyd-destun ar gyfer y canllaw hwn

Dyddiadau allweddol ar gyfer dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

5 Ebrill 2011	Dyletswydd gyffredinol yn dod i rym
6 Ebrill 2011	Dyletswyddau penodol yng Nghymru yn dod i rym
2 Ebrill 2012	Cyrff rhestredig yng Nghymru i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
2 Ebrill 2012	Rhaid bod cyrff rhestredig yng Nghymru wedi ymgysylltu â phobl â diddordeb fel rhan o'r gwaith o gasglu gwybodaeth berthnasol i asesu eu gweithgareddau yn erbyn y ddyletswydd gyffredinol. Rhaid cyhoeddi gwybodaeth berthnasol fel y bo'n briodol.

1.1 Beth yw awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru?

I ddibenion y canllaw hwn, mae awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru (neu 'gorff rhestredig') yn un sydd wedi ei gynnwys yn Rhan 2 Atodlen 19 y Ddeddf fel y'i hategwyd a'i haddaswyd gan Orchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, awdurdodau lleol, cyrff addysg (yn cynnwys ysgolion), cyrff iechyd a Llywodraeth Cymru.

1.2 Deddf Cydraddoldeb 2010

Daw Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) a deddfau gwrthwahaniaethu blaenorol ynghyd mewn un Ddeddf sy'n eu disodli. Mae'n symleiddio a chryfhau'r gyfraith, yn cael gwared ar anghysonderau ac yn ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â'r gofynion. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys **dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus** newydd (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle dyletswyddau unigol ar hil, anabledd a chydraddoldeb rhyw. Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.

1.3 Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau yn cael eu cynnwys yng nghynllun, polisïau a chyflawniad gwasanaeth a'u bod yn cael eu cadw dan arolwg. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

1. ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
3. meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at y tair elfen hyn fel tri 'nod' y ddyletswydd gyffredinol ac felly pan fyddwn yn trafod y ddyletswydd gyffredinol, rydym yn golygu'r tri nod.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond parthed y gofyniad i roi sylw priodol i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu.

Mae'r canllaw hwn ar adegau yn defnyddio'r ymadrodd 'grŵp gwarchodedig' i gyfeirio at bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

2. Dyletswyddau penodol yng Nghymru

Diben eang y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff rhestredig yn eu perfformiad o'r ddyletswydd gyffredinol ac i hwyluso tryloywder.

2.1 Pwy sydd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol?

Mae'r dyletswyddau penodol yn berthnasol i gyrff rhestredig yng Nghymru ond nid i awdurdodau cyhoeddus heb eu datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru sydd wedi eu cynnwys dan y ddyletswydd gyffredinol hefyd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol. Mae'r dyletswyddau penodol yn cyflwyno'r camau y mae'n rhaid i gyrff rhestredig yng Nghymru gymryd er mwyn arddangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r canllaw hwn yn un o gyfres o ganllawiau anstatudol ar y dyletswyddau penodol.

Mae'r dyletswyddau'n cysylltu â'i gilydd a gellir canfod mwy o fanylion am bob agwedd yn y canllawiau canlynol:

1. Y canllaw hanfodol i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (trosolwg)
2. Amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
3. Ymgysylltiad
4. Asesu effaith
5. Gwybodaeth am gydraddoldeb
6. Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau tâl a hyfforddiant staff
7. Caffael
8. Adrodd blynyddol, cyhoeddi a dyletswyddau gweinidogol (yn cynnwys arolwg a hygyrchedd)

2.2 At bwy mae'r canllaw anstatudol wedi ei anelu?

Mae'r canllaw anstatudol wedi ei ddatblygu'n bennaf i'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu'r dyletswyddau penodol i Gymru, yn arbennig y rhai ar lefel uwch a gweithredol sy'n gyfrifol am bolisi a gwneud penderfyniadau. Bydd y canllaw hefyd yn ddefnyddiol i unrhyw un sydd â diddordeb yn y gwaith a gweithgareddau awdurdodau cyhoeddus.

Mae'n bwysig bod swyddogion uwch sy'n gyfrifol am benderfyniadau mewn awdurdodau cyhoeddus (megis Prif Weithredwyr, Cadeiryddion ac aelodau Byrddau) yn derbyn cyfarwyddyd digonol ar y ddyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol. Dylai hyn eu paratoi i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i gydraddoldeb yn y sefydliad a dylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel.

Mae'r blwch (blychau) testun isod yn amlinellu gofynion y rheoliadau ac mae'r rhain yn ymddangos hefyd yn y *Canllaw hanfodol*. Mae'r testun ychwanegol yn y canllaw hwn yn rhoi cyd-destun pellach ynghylch y dyletswyddau penodol.

3. Gwybodaeth cydraddoldeb

3.1 Beth mae'r dyletswyddau penodol yn ei fynnu o ran gwybodaeth cydraddoldeb

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- wneud trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn nodi gwybodaeth berthnasol sydd yn ei feddiant o bryd i'w gilydd, ac yn nodi a chasglu gwybodaeth nad yw yn ei feddiant
- gwneud trefniadau priodol i nodi a chasglu gwybodaeth ynglŷn â gwahaniaethau mewn tâl, ac achosion gwahaniaethau o'r fath, rhwng cyflogeion sydd â nodwedd warchodedig a'r rhai sydd heb
- cyhoeddi gwybodaeth berthnasol sydd yn ei feddiant, oni bai y byddai'n amhriodol i wneud hynny (e.e. byddai'n groes i Ddiogelu Data neu ddeddfwriaeth arall). Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon erbyn 2 Ebrill 2012 a'i hadolygu o bryd i'w gilydd.

Yn rhan o'r broses o nodi gwybodaeth berthnasol, bydd angen i awdurdod asesu sut y gallai ei waith a'i weithgareddau helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Wrth asesu sut mae'n cyflawni ei weithgareddau yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol, rhaid i awdurdod gyflawni'r oblygiadau ymgysylltiad a rhoi sylw dyledus i wybodaeth berthnasol arall. Rhaid cyflawni'r asesiad hwn erbyn 2 Ebrill 2012 a'i adolygu o bryd i'w gilydd.

Yn rhan o'i ddyletswyddau penodol ar adrodd blynyddol, mae gofyn i gorff rhestredig gyhoeddi ei resymau dros beidio casglu gwybodaeth berthnasol mae wedi'i nodi, ond nad yw yn ei feddiant.

Rhaid i gyrff rhestredig gasglu a chyhoeddi gwybodaeth fanwl ar broffil ei gyflogeion (gweler **Gwybodaeth cyflogaeth** isod).

4. Pwrpas gwybodaeth cydraddoldeb

Mae'r dyletswyddau penodol ar wybodaeth berthnasol yn galluogi awdurdod rhestredig i wreiddio tystiolaeth yn ymwneud â chydraddoldeb yn ei waith. Bydd casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol yn hollbwysig wrth geisio cyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Y canlyniad y gobeithir amdano yw bod gan gorff rhestredig y dystiolaeth orau i'w alluogi i bennu nodau ystyrlon ac i gynnal asesiadau effaith gwybodus.

Mae cyhoeddi'r wybodaeth hon yn helpu gwneud gwaith datblygu polisi yn fwy tryloyw ac yn esbonio sut a pham y caiff penderfyniadau eu gwneud. Bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth wneud penderfyniadau anodd am adnoddau.

Bydd hefyd yn galluogi'r Comisiwn ac eraill perthnasol i fesur perfformiad corff rhestredig ar gydraddoldeb.

Bydd yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud penderfyniadau o dan y ddyletswydd yn amrywio'n fawr rhwng sectorau a sefydliadau gwahanol. Mater i gorff rhestredig yw penderfynu'n union pa wybodaeth fydd yn helpu cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Bydd hyn yn dibynnu ar ffactorau fel natur a maint y sefydliad.

5. Pryd mae'n rhaid defnyddio gwybodaeth berthnasol?

Mae'r dyletswyddau penodol yn mynnu fod rhaid i gorff rhestredig roi sylw dyladwy i wybodaeth berthnasol ar adegau penodol, sef;

- wrth baratoi a chyhoeddi nodau cydraddoldeb
- wrth asesu polisïau ac arferion o ran eu heffaith ar grwpiau gwarchodedig
- wrth wneud neu ddiwygio ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol; ac
- wrth asesu ei waith a'i weithgareddau o ran cyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

6. Datblygu gwybodaeth

6.1 Gwybodaeth berthnasol sy'n bod yn barod

Rhaid i gorff rhestredig wneud trefniadau priodol i ddynodi'r wybodaeth sydd ganddo ar y pryd sy'n berthnasol i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol. Gall gwybodaeth berthnasol fod ym meddiant sefydliad arall yn ogystal ag o fewn y corff rhestredig ei hun.

Fel rhan o'r trefniadau i ddynodi gwybodaeth berthnasol, bydd angen i awdurdod asesu sut all yr hyn mae'n ei wneud (ei waith a'i weithgareddau) helpu cyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol. Mae gofyn penodol ar gyrff rhestredig i gynnal yr asesiad hwn erbyn 2 Ebrill 2012 ac mae'n rhaid iddo gynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig.

Rhaid i gorff rhestredig gyhoeddi'r rhesymau dros beidio casglu gwybodaeth berthnasol a ddynododd, ond nad yw yn ei feddiant.

Mae'r dyletswyddau'n rhoi disgrifiad eang o bryd y mae corff rhestredig yn meddu ar wybodaeth berthnasol. Yn ogystal â'r wybodaeth sydd gan yr awdurdod ei hun, mae'r disgrifiad yn cynnwys:

- gwybodaeth berthnasol sydd ym meddiant person/sefydliad arall ar ran y corff rhestredig
- gwybodaeth berthnasol sydd ym meddiant corff rhestredig ar ran person/sefydliad arall pan mae'r:
  - person hwnnw/honno wedi cydsynio i'r corff rhestredig ddefnyddio'r wybodaeth i'w helpu cyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol; neu
  - os byddai'n gyfreithlon a rhesymol i'r corff rhestredig ddefnyddio'r wybodaeth i'w helpu cyflawni'r dyletswyddau.

6.2 Ffynonellau gwybodaeth

Gall tystiolaeth ddefnyddiol gynnwys:

- ymchwil meintiol ac ystadegau e.e. Cyfrifiad ac arolygon
- ymchwil ansoddol e.e. grwpiau trafod
- data gweinyddol
- gwybodaeth monitro defnyddwyr gwasanaethau
- gwybodaeth monitro'r gweithlu
- adborth a chwynion defnyddwyr gwasanaethau e.e. arolygon bodlonrwydd
- gwybodaeth ar bobl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau yn ogystal ag ar bobl sydd yn eu defnyddio.

Wrth gynnal gwaith monitro ac arolygon, efallai y byddai'n ddefnyddiol defnyddio cwestiynau safonol o Gyfrifiad 2011 neu gwestiynau ONS eraill e.e. ar ethnigrwydd. Os yw sefydliad yn defnyddio cwestiynau safonol drwyddi draw, bydd hynny'n gymorth wrth ddadansoddi a chymharu data.

Dylai holiaduron neu arolygon gynnwys gwybodaeth ar sut fydd y data'n cael ei storio, sut fydd yn cael ei ddefnyddio a phwy all gael mynediad ato. Os ellir cysylltu gwybodaeth ag unigolyn ni ellir ond ei storio trwy gael eu caniatâd ysgrifenedig, ellir ei roi ar ffurflen fonitro. Mae rhagor o wybodaeth ar ddiogelu data ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: http://www.ico.gov.uk/for_organisations/data_protection.aspx.

Bydd adroddiadau cenedlaethol perthnasol yn ddefnyddiol. Mae ffynonellau'n cynnwys:

- Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, gan gynnwys y Cyfrifiad a'r Arolwg Gweithlu
- Ystadegau a data Llywodraeth Cymru
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan gynnwys yr Adolygiad Teirblwydd: *Pa mor deg yw Prydain, 'Pa mor deg yw Cymru?' ac 'Anatomi o anghydraddoldeb Economaidd yng Nghymru'*.
- Sefydliadau trydydd sector, y mae gan lawer ohonynt wybodaeth ddefnyddiol ar grwpiau gwarchodedig.

Gallai fod yn ddefnyddiol i gyrff rhestredig gronni gwybodaeth gydag awdurdodau cyhoeddus eraill yn ôl sector neu ardal (er enghraifft, o fewn Byrddau Gwasanaeth Lleol).

6.3 Gwybodaeth am y gweithlu

Mae disgwyl i gyrff rhestredig gasglu gwybodaeth am eu staff yn ôl grŵp gwarchodedig. Mae'n rhaid iddynt hefyd adrodd yn rheolaidd ar sut mae polisïau ac arferion yn effeithio staff o grwpiau gwarchodedig. Mae Canllaw 6 ar wybodaeth cyflogaeth a gwahaniaethau tâl yn cynnwys mwy o wybodaeth am hyn.

Ni all corff rhestredig ddibynnu ar y dyletswyddau penodol i fynnu fod rhaid i unrhyw weithiwr neu ymgeisydd ddarparu unrhyw wybodaeth am ei nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, mae er lles awdurdod i gasglu gwybodaeth sydd mor gyflawn a chywir ag y bo modd fel bod ganddo broffil llawnach o'i staff a'i fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau mwy gwybodus er mwyn anelu at gyflawni nodau'r ddyletswydd gyffredinol. Felly, dylai awdurdodau gymryd camau i esbonio pam eu bod yn casglu'r wybodaeth cydraddoldeb a sut fydd yn cael ei defnyddio, a chynnig sicrwydd priodol ar faterion cyfrinachedd.

7. Rhoi sylw i fylchau

Wrth ddynodi'r wybodaeth sydd ganddo ar y pryd mae corff rhestredig yn debygol o ddynodi agweddau ar ei waith lle nad oes ganddo wybodaeth ddigonol ar rai grwpiau gwarchodedig, deilliannau, lefelau mynediad ac ati.

Os yw corff rhestredig yn gweld nad oes ganddo ddigon o wybodaeth, bydd angen iddo roi sylw i'r bylchau oddi fewn i'w drefniadaeth ei hun ac eraill.

8. Adolygu

O bryd i'w gilydd rhaid i gorff rhestredig adolygu ei drefniadau ar gyfer dynodi a chasglu gwybodaeth berthnasol.

9. Monitro gwybodaeth sensitif

Ar gyfer rhai grwpiau gwarchodedig nid yw monitro cydraddoldeb yn fater cyffredin neu mae'n codi rhai cwestiynau penodol. Ceir rhagor o wybodaeth am fonitro'r gweithlu yn Atodiad 2 Côd Cyflogaeth Deddf Cydraddoldeb 2010, sydd hefyd yn berthnasol i fonitro gwasanaethau:

http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/EqualityAct/employment_code_05.10.10.pdf

Mae Atodiad A yn cynnwys arweiniad ar gasglu gwybodaeth am grwpiau gwarchodedig.

10. Cyhoeddi

10.1 Ble a beth i'w gyhoeddi

Mae'r dyletswyddau penodol yn mynnu fod corff rhestredig yn cyhoeddi gwybodaeth berthnasol sydd ganddo ac mae'n ei hystyried yn briodol i'w chyhoeddi. Wrth gyhoeddi asesiadau o effaith ar grwpiau gwarchodedig, mae gofyniad i gyhoeddi crynodeb o'r wybodaeth a ddefnyddiwyd.

Dylai cyrff rhestredig gyhoeddi hefyd yr hyn maen nhw'n ei wneud i roi sylw i unrhyw fylchau gwybodaeth a phwy sy'n gyfrifol am wneud hyn.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol cyhoeddi'r holl wybodaeth cydraddoldeb mewn un lle, lle y mae'n hwylus hygyrch at ddefnydd mewnol ac allanol. Os yw'n rhan o adroddiad ehangach, byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at yr wybodaeth cydraddoldeb a'i darparu ar wefan.

10.2 Hygyrchedd

Rhaid i awdurdodau gymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi gwybodaeth mewn fformatau sy'n hygyrch i bobl mewn grwpiau gwarchodedig (e.e. pobl â nam ar eu golwg, ieithoedd gwahanol, ac ati). Mae canllawiau defnyddiol ar hygyrchedd gwefannau a safon BSI ar gyfer comisiynwyr gwefannau ar gael ar-lein yn y Fenter Hygyrchedd: http://www.w3.org/WAI/.

Trowch hefyd at Ganllaw 8 yn y gyfres hon: Adrodd blynyddol, cyhoeddi a dyletswyddau Gweinidogol.

11. Cyfrinachedd

Mae'n bwysig gofalu fod gofynion y Ddeddf Diogelu Data yn cael eu bodloni, sef diogelu hawliau cyfrinachedd gweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau.

Atodiad A: Cyngor i awdurdodau cyhoeddus ar gasglu gwybodaeth cydraddoldeb

Mae pobl yn debygol o fod yn llawer mwy parod i ateb cwestiynau ar hunaniaeth os ydynt yn deall yn iawn ym mha ffordd y defnyddir yr wybodaeth a pha fantais sydd iddynt hwy ac eraill.

1. Anabledd

Bydd i ba raddau yr ydych yn dadelfennu gwybodaeth yn dibynnu ar berthnasedd y mater i gydraddoldeb a chysylltiadau da, a maint eich sefydliad. Er hynny, bydd angen ichi gofio na fydd dadelfennu gwybodaeth o ran a yw pobl yn anabl ai peidio ynddo'i hun yn rhoi darlun clir ichi o'ch gweithlu anabl neu ddefnyddwyr eich gwasanaethau, gan na fydd yn adlewyrchu gwahanol fathau o amhariadau.

Er ei bod fel arfer yn anghyfreithlon gofyn i unrhyw un sy'n cynnig am swydd am eu hanabledd neu iechyd nes y cynigiwyd swydd i'r ymgeisydd, gallwch ofyn cwestiynau am anabledd ac iechyd ar gyfer:

- gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer y broses gwneud cais
- dibenion monitro cydraddoldeb, sy'n cael ei gadw ar wahân i'r ffurflen gais.

Mae mwy o fanylion am y diffiniad o anabledd yn Atodiad 1 y Codau Ymarfer ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar gyfer gwasanaethau/swyddogaeth ac ar gyfer cyflogaeth:

http://www.equalityhumanrights.com/legal-and-policy/equality-act/equality-act-codes-of-practice/

2. Cyfeiriadedd rhywiol

Mae monitro cyfeiriadedd rhywiol yn aml yn fater newydd a sensitif i staff ac i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'n bwysig esbonio nad yw'n orfodol ateb cwestiynau ar unrhyw agwedd o hunaniaeth. Mae tystiolaeth gan awdurdodau cyhoeddus yn awgrymu fod lefelau datgelu cyfeiriadedd rhywiol yn cynyddu gydag amser, wrth i sefydliadau wella eu systemau a chreu diwylliant o ymddiriedaeth.

Er mwyn cael rhagor o gyngor ar fonitro cyfeiriadedd rhywiol, trowch at ganllawiau'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ar gwestiwn cytûn Ystadegau Cenedlaethol sy'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol:

http://www.ons.gov.uk/about-statistics/measuring-equality/equality/sexual-identity-project/measuring-sexual-identity--an-evaluation-report.pdf

Fodd bynnag, mae rhai sefydliadau'n credu y gallai'r ffordd y gofynnodd ONS y

cwestiwn arwain at dan-hysbysu, yn enwedig felly ymhlith pobl hŷn.

Efallai hefyd y bydd y ddogfen ganlynol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn yn ddefnyddiol. Mae'n edrych ar y ddadl o blaid gofyn i bobl am gyfeiriadedd rhywiol a'r materion mae hynny'n eu codi, gan gynnwys sut ellid gofyn cwestiwn yn fwy effeithiol, pwysigrwydd anhysbysrwydd a chyfrinachedd, y cwestiynau sy'n gweithio a sut ellir defnyddio'r wybodaeth a gesglir: http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/research/improving_sexual_orientation_monitoring_v6_22-12-10.pdf.

3. Ailbennu rhywedd

Mae'r term 'ailbennu rhywedd' yn berthnasol i'r broses o drosglwyddo o un rhywedd i un arall. Y term a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i ddisgrifio pobl sy'n bwriadu trosglwyddo, neu sydd yn trosglwyddo neu sydd wedi trosglwyddo yw 'trawsrywiol'. Felly, mae person sy'n bwriadu mynd, sydd yn mynd neu sydd wedi mynd trwy broses o ailbennu rhywedd (all neu all beidio cynnwys therapi hormonau neu lawdriniaeth) yn berson trawsrywiol, a elwir hefyd yn berson trawsryweddol ('person traws').

Mae monitro niferoedd pobl draws yn faes sensitif iawn ac mae'r farn yn parhau'n rhanedig ar y mater hwn. Mae llawer o bobl draws wedi cael eu bwlio, eu haflonyddu a'u hynysu, a gallent gael eu heffeithio'n negyddol iawn pe bai eu statws yn cael ei ddatgelu. Fel cyflogwr neu ddarparwr gwasanaethau, mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswydd i warchod hawl unigolyn i breifatrwydd. Fodd bynnag, heb gasglu rhyw fath o dystiolaeth, gall fod yn anodd monitro effaith polisïau ac arferion ar bobl draws neu ar batrymau cyflogaeth fel cyfraddau recriwtio, hyfforddiant, dyrchafiad neu adael.

Gan fod llawer o bobl draws wedi cael profiadau negyddol yn y gweithle a chyda gwasanaethau, efallai y byddent yn amharod i ddatgelu neu efallai na fyddent yn ymddiried yn llawn yn eu cyflogwyr neu ddarparwyr gwasanaethau. Gellir gwneud y monitro trwy sefydliad niwtral a chanddo arbenigedd yn y maes, gan warantu anhysbysrwydd. Os nad yw hyn yn bosib, dylid gwneud y monitro o fewn eich trefniadau monitro arferol, er ei bod yn hanfodol fod awdurdodau cyhoeddus yn gofalu na ellir adnabod pobl draws unigol.

Adeg ysgrifennu hyn, nid yw'r Comisiwn yn argymell unrhyw fath arbennig o gwestiwn i fonitro ailbennu rhywedd, ond mae wrthi'n ystyried y mater cymhleth hwn. Mae'n bwriadu cyhoeddi argymhellion ym mis Ebrill 2011. Edrychwch yng ngwefan y Comisiwn i gael manylion.

Deddf Ailbennu Rhywedd 2004
Mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswydd i ddiogelu hawl unigolyn i breifatrwydd. Mae angen ichi gofio fod Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 yn trefnu, pan mae gan berson dystysgrif cydnabod rhywedd, fod rhaid eu trin yn ôl eu rhywedd gaffaeledig ac mae'n dramgwydd droseddol i ddatgelu eu statws. Efallai y bydd person trawsrywiol yn cydsynio ichi ddatgelu'r wybodaeth os ydynt yn penderfynu ei fod er ei lles gorau nhw i wneud hynny. Fodd bynnag, rhaid i gydsyniad o'r fath fod yn bendant. Ni ellir ei ragdybio. Ni ddylech ofyn heb reswm i staff neu ddefnyddwyr gwasanaethau trawsrywiol ddangos eu tystysgrif yn brawf o'u rhywedd cyfreithiol.

4. Plant a phobl ifanc

Nid yw wastad yn addas gwneud gwaith monitro ar faterion sensitif gyda phobl ifanc. Mewn sefyllfa felly, cofiwch y gallwch ddefnyddio gwybodaeth neu ymgysylltiad cenedlaethol i ddynodi materion blaenoriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Gall tueddiadau cenedlaethol hefyd fod yn uniongyrchol berthnasol i'ch sefyllfa chi.

5. Crefydd a chred

Gall monitro crefydd a chred fod yn fater sensitif ac unwaith eto dylid pwysleisio nad yw'n orfodol ateb cwestiynau ar grefydd a chred (neu unrhyw nodwedd warchodedig).

Gallai fod cwestiwn hefyd ynghylch dehongli gwybodaeth am grefydd neu gred rhywun oherwydd y lefelau ymrwymiad amrywiol sydd gan bobl sy'n ystyried eu hunain yn perthyn i grefydd arbennig. Er enghraifft, gall fod gwahaniaethau amlwg rhwng rhywun sy'n ystyried eu hun yn Gristion a pherson y mae Cristnogaeth yn dylanwadu ar bob agwedd o'u bywydau.

Cofiwch fod y ddyletswydd yn berthnasol hefyd i bobl heb unrhyw gred, fel atheistiaid, a phobl a chanddynt gredoau athronyddol anghrefyddol, fel dyneiddwyr.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth, trowch at Gôd Cyflogaeth Deddf Cydraddoldeb 2010:
http://www.equalityhumanrights.com/legal-and-policy/equality-act/equality-act-codes-of-practice/

Cysylltwch â ni

Cymru

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Llawr 3, 3 Sgwâr Callaghan, Caerdydd CF10 5BT

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn
0845 604 8810

Ffôn testun
0845 604 8820

Ffacs
0845 604 8830

Lloegr

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Arndale House,
Arndale Centre,
Manceinion M4 3AQ

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn
0845 604 6610

Ffôn testun
0845 604 6620

Ffacs
0845 604 6630

Yr Alban

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

The Optima Building,
58 Robertson Street,
Glasgow G2 8DU

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn:
0845 604 55 10

Ffôn testun
0845 604 5520

Ffacs
0845 604 5530

Amserau agor y llinell gymorth:

Dydd Llun i ddydd Gwener: 8am–6pm

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â'r llinell gymorth berthnasol i drafod eich anghenion. Gallwch lwytho pob cyhoeddiad i lawr hefyd a'u harchebu mewn amrywiaeth bo fformatau o'n gwefan:

www.equalityhumanrights.com

© Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Ebrill 2011
ISBN 978 1 84206 417 7

Gwaith celf gan Epigram
www.epigram.co.uk

www.equalityhumanrights.com

Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission